PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**ARHOLIAD MYNEDIAD**

**IONAWR 2020**

# CYMDEITHASEG

***Amser - 1.5 awr***

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr: rhowch gynnig ar 2 gwestiwn.**

---

1. Defnyddiwch enghreifftiau penodol i drafod sut mae syniadau am yr hunan yn cael eu diffinio trwy gyfeirio at 'arall'.

2. Mae globaleiddio yn arwain at homogeneiddio hunaniaeth unigolion a grwpiau. Cloriannwch y datganiad hwn trwy gyfeirio at enghreifftiau penodol.

3. Defnyddiwch enghreifftiau penodol i drafod sut y gallai ymdriniaeth gymdeithasegol ein cynorthwyo i ddeall y cysylltiad rhwng grym a gwrthwynebiad.

4. Sut mae newid cymdeithasol yn digwydd?

5. Ym mha ffordd y gallai cymdeithasegwyr amau a goleddfu dadleuon diweddar gan boblyddwyr ynglŷn â hunaniaeth a gwleidyddiaeth?

6. Sut mae ymdriniaeth gymdeithasegol yn ein cynorthwyo i ddeall sut y caiff anghydraddoldebau cymdeithasol eu creu a'r dulliau y gellid eu defnyddio i leihau'r anghydraddoldebau hynny?

7. Beth yw'r sefydliadau a'r prosesau allweddol a gynorthwyodd i ddiffinio'r rhan a chwaraeir gan fenywod yn y gymdeithas? Sut y mae menywod wedi ceisio diffinio'r rhannau hyn?

8. Trafodwch sut y gallai ymdriniaeth gymdeithasegol gynorthwyo i wella un maes o bolisi cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

9. Pwy yw'r damcaniaethwr a fu'n fwyaf defnyddiol i chi wrth astudio cwrs Cymdeithaseg Safon Uwch? Rhaid cyfiawnhau eich dewis.

10. Honnodd Margaret Thatcher, cyn Brif Weinidog y Deyrnas Unedig, nad oedd y fath beth â chymdeithas. Ysgrifennwch draethawd sy'n cefnogi ei dadl hi, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol.